

## DISGRIFIAD SWYDD

### SWYDDOG PLANT A THEULUOEDD

<b>TEITL SWYDD:</b>	SWYDDOG PLANT A THEULUOEDD	<b>CYFLOG:</b>	£20,000 - £25,000
<b>LLEOLIAD GWAITH:</b>	LLANDEILO (PRIF LEOLIAD)		
<b>ATEBOL I:</b>	RHEOLWR GWASANAETHAU CYMUNEDOL		
<b>PRIF BWRPAS Y SWYDD (CRYNODEB):</b>			
<p>Rôl y swyddog fydd gweithio fel rhan o dîm Menter Dinefwr a Gofal Plant Cyf, gan weithio i ddatblygu rhaglen o weithgareddau sy'n ymgysylltu gyda theuluoedd â phlant ifanc a chefnogi clybiau gofal y Fenter.</p>			
<b>PRIF GYFRIFOLDEBAU:</b>			
<p><b>Bydd y prif gyfrifoldebau'n cynnwys:</b></p> <p><b><i>Menter Dinefwr</i></b></p> <p>Cynnal gweithgareddau a datblygu prosiectau er mwyn ymgysylltu â theuluoedd, rhieni a phlant ifanc i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a manteision dwyieithrwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu prosiectau ar gyfer rhieni a phlant ifanc a chynnal sesiynau amrywiol megis sesiynau stori, jamboris, cyflwyniadau i rieni newydd, a teithiau bygis</li> <li>• Gweithio gyda lleoliadau megis meithrinfeydd, canolfannau teulu, a chylchoedd meithrin</li> <li>• Cydweithio gyda phartneriaid eraill yn y maes</li> </ul> <p><b><i>Gofal Plant Cyf</i></b></p> <p>Cydllynu clybiau Gofal Plant Cyf sydd ar hyn o bryd yn cynnwys 1 clwb brecwast dyddiol yn ystod y tymor, 3 chlwb ar ôl ysgol dyddiol yn ystod y tymor ac 1 clwb haf yn ystod y gwyliau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod yn gyfrifol am waith gweinyddol y clybiau</li> <li>• Delio gydag ymholiadau gan rieni a staff</li> <li>• Sicrhau bod ystod eang o weithgareddau ac adnoddau ym mhob clwb</li> <li>• Ymweld â'r clybiau yn gyson</li> <li>• Gweithredu fel Person Cofrestredig gydag Arolygiaeth Gofal Cymru</li> </ul> <p><b>Yn ogystal â'r dyletswyddau uchod, disgwylir i'r swyddog ymrwymo i'r isod:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cydweithio fel rhan o dîm Menter Dinefwr, Trywydd Cyf, Gofal Plant Cyf, Cyfoes a gyda phartneriaid</li> <li>• Cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol a phersonol fel unigolyn ac mewn tîm</li> <li>• Cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad a delwedd gyhoeddus y cwmnïau</li> <li>• Hyrwyddo rhannu arfer da o fewn y cwmnïau a rhwngartneriaid</li> <li>• Cefnogi prosiectau ac unrhyw waith arall y cwmnïau o fewn ystod y swydd</li> <li>• Cynorthwyo'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli yn ôl y galw</li> <li>• Mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli neu gyfarfodydd eraill ar ran y cwmnïau pan fo galw</li> <li>• Cyfrannu drwy'r Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol tuag at ddatblygu cynlluniau hirdymor y cwmni</li> <li>• Teithio'n achlysurol i wahanol swyddfeydd y cwmnïau, yn Rhydaman, Caerfyrddin ac Aberystwyth</li> <li>• Gweithredu yn unol â Deddf Gwlad, Polisiau a Gweithdrefnau'r cwmni, yn cynnwys rheoli risg a materion iechyd a diogelwch</li> </ul>			
<b>PARATOWYD GAN:</b>	Owain Siôn Gruffydd (Prif Weithredwr)	<b>DYDDIAD CWBLHAU:</b>	01/10/2021

**ATEBOLRWYDD:**

- Atebol i'r Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol a fydd wedyn yn adrodd nôl i'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd Rheoli. Hefyd yn atebol i'r Rheolwr Gwasanaethau Masnachol am elfen y clybiau gofal

**CYMWYSTERAU A SGILIAU HANFODOL:**

- Rhuglder yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Cymwysterau NVQ lefel 3 / Lefel A neu'n uwch
- Gallu cyfrifiadurol (pecynnau amrywiol Microsoft, ebost, a'r we)
- Sgiliau rhagorol o ran trefnu, rheoli amser a gwaith cyffredinol
- Sgiliau cyfathrebu gwyd gyda'r hyder i gyflwyno o flaen plant a rhieni yn effeithiol
- Sgiliau rhyngpersonol o safon uchel gyda'r hyder i ymdrin â phobl yn gwrtais ac effeithlon
- Gallu i wneud gwaith manwl-gywir a chyson
- Y gallu i weithio'n ddiwyd ar eich liwt eich hun ac fel rhan o dîm
- Y parodrwydd i ddysgu a datblygu yn y swydd
- Y parodrwydd i weithio'n achlysurol gyda'r hwyr ac ar benwythnosau
- Gallu mewnbynnu data'n gywir a chadw data mewn cydymffurfiaeth â deddfau diogelu data perthnasol
- Trwydded yrru lawn a defnydd o gar

**CYMWYSTERAU A SGILIAU DYMUNOL:**

- Cymhwyster perthnasol ar lefel gradd neu gyfwerth
- Profiad o weithio gyda plant ifanc a theuluoedd
- Cymhwyster gofal plant
- Profiad o ddelio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW)

**CYFLOGAETH:**

- Telir Costau Teithio o 40 ceiniog y filltir am deithiau perthnasol yn ymwneud â'r gwaith
- Telir cyfraniad pensiwn i Gronfa Pensiwn Dyfed pe dymunir hynny
- Bydd y cyflog yn newid gyda chwyddiant neu amrywiadau blynyddol fel y'i pennir gan y Bwrdd Rheoli yn amodol ar berfformiad boddhaol
- Cynigir cytundeb llawn amser. Rhoddir cyfnod prawf cychwynnol o chwe mis gyda goruchwyliaeth gyson a system werthuso ddatblygiadol
- Bydd yr oriau gwaith yn 37½ awr yr wythnos. Oriau arferol fydd 9am-5pm gyda ½ awr i ginio i'w gymryd rhwng 12 a 2pm. Mae'r oriau'n hyblyg a gallai fod angen gweithio gyda'r nos neu/ac ar benwythnosau ar adegau. Rhoddir yr oriau hyn yn ôl yn llawn drwy system *Time Off In Lieu (TOIL)*
- Bydd 24 diwrnod o wyliau blynyddol yn ogystal â gwyliau statudol, yn codi i 29 diwrnod wedi 5 mlynedd o wasanaeth llawn
- Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus gael gwiriad manwl DBS

**Adolygir y disgrifiadau swydd yn rheolaidd fel rhan o werthusiad staff a datblygiad personol**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**PARATOWYD GAN:** Owain Siôn Gruffydd (Prif Weithredwr)

**DYDDIAD CWBLHAU:** 01/10/2021